## DEWI WILLIAMS ar drywydd

# Yr hen gerddor o fro Bryn Terfel

UN O amryfal gyhoeddiadau H. Humphreys Caernarfon yw'r gyfrol fechan *Blaenffrwyth Dwyfach*, casgliad o donau, anthemau a darnau amrywiol a ymddangosodd yn 1869. Yr awdur oedd William Williams a adnabyddid fel Eos Graianog.

Yn ei ragair noda'r cymhellion tu ôl i'r cyhoeddi, sef yn gyntaf 'cael ychydig o elw at fy ngynhaliaeth' ac yn ail 'dangos fod yn bod yn y Garn ryw gymaint o dalent cerddorol'. Ychwanega er gwybodaeth i'r darllenwyr fod y mwyafrif o'r tonau yn rhai buddugol ac wedi eu hadolygu gan Moehwynfab (R. Stephen).

Cynnwys y gyfrol chwe thôn gynulleidfaol, pedair anthem a phedwar 'darn amrywiaethol', cân a chytgan y cyfansoddwyd y geiriau ar eu cyfer gan un Henry Parry (Glan Erch). Digon syml yw'r cynnyrch ond eto'n dderbyniol yn ôl y gerddwraig Nan Elis a fu mor garedig â thaflu golwg ar y cyfansoddiadau.

Nid yn annisgwyl mae sawl un yn y cywair lleddf, yr emyn donau megis 'Gethsemane' a 'Dolbenmaen'; yr anthem 'Marwolaeth Cyfeillion', er cof am Mr Roger Owen, Tyddyn y Graig; a'r gân a chytgan 'Deigryn ar Fedd Mam'.

Yn y drydedd gyfrol o *Atgofion Tri Chwarter Canrif*, Dr John Lloyd Williams, ceir portread o Eos Graianog a oedd yn gyfarwydd iawn i'r awdur yn ystod ei gyfnod fel prifathro Ysgol Garndolbenmaen yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf.

Tystia ei fod wedi dysgu llawer mwy am gerddoriaeth oddi wrth William Williams nag a wnaeth yn y coleg. Defnyddia'r Eos dermau Cymraeg technegol fel y 'seithfed leiedig' a oedd yn newyddbeth i'r prifathro ond barnai nad gwiw iddo gyffesu hynny, 'rhag colli ei ddylanwad' fel arweinydd y côr a sefydlwyd ganddo.

* * * *

YN nodweddiadol o'i genhedlaeth, meithrinwyd yr Eos mewn hen nodiant ac nid oedd ganddo lawer o barch tuag at y sol-ffa. Arferai ddyfynnu Ieuan Gwyllt, a wobrwyodd amryw o'i gyfansoddiadau, fel yr awdurdod anffaeledig. Tyngai mai'r 'hen-nodiant pia hi am hollti blew' pan ddeuai'r angen i ganu'n gromataidd gywir.

Byddai croeso bob amser i John Lloyd Williams ar aelwyd Glan Don, bwthyn llawr a siambar yr Eos a adeiladwyd ganddo'i hun ger cors ddu Graeanog, mawnog a ddiwallai angen yr ardal.

Yng nghwmni William Brymer, un o siopwyr y Garn, cynhelid seiadau cerddorol brwd ac yna y gorchymyn gan Margery Williams, 'Dyna ddigon o ganu, dowch at y bwrdd,' er mwyn swpera ar y bacwn cartre a'r ymenyn fferm yn dew ar y bara.

Bu'r triawd yn datgan yn gyhoeddus mewn cyngherddau lleol ac fel arfer caneuon ysmala a droswyd i'r Gymraeg gan J. Lloyd Williams oedd y ffefrynnau. Yn un ohonynt protestiai yr Eos yn y cytgan ei fod 'yn leicio ffarm yn iawn, a thŷ a hwnnw'n llawn; ond dim gwraig yntôl i mi, i mi.'

Eironig iawn yw'r geiriau yn wyneb y ffeithiau trist am ei rawd yn ddiweddarach. Oddi tan y pennawd 'Anghydsain yn Nheulu'r Cerddor' adroddir hanes achos cyfreithiol yn llys ustusiaid Porthmadog yn *Yr Herald Cymraeg*, Ebrill 24, 1885.

Daeth William a Margery Williams ag achos o ymrafael yn erbyn ei gilydd ac ymddangosodd neb llai na David Lloyd George fel twrnai ieuanc addawol ar gychwyn ei yrfa, o blaid yr Eos. Enynnodd ymddangosiad y cerddor yn y llys gryn gydymdeimlad ar ran y gohebydd a ddisgrifiodd ei fysedd a'i fawd yn blasteri o ganlyniad i frathiadau ei wraig. Tystiodd yr Eos fel yr ofnai am ei fywyd gyda hi oherwydd ei gwylltineb.

Wrth ei rwymo i gadw'r heddwch am flwyddyn, ymddiheurodd y fainc wrtho nas gallent ddelio gyda Margery Williams yn yr un modd am na chaniatâi y gyfraith hynny. 'Gobeithient na fyddai iddi golli ei thymer eto.'

Dadlennir ochr arall y gweryl yn fwy diduedd yn llyfr cofnodion y llys. Tystiodd cymydog y bu i'r cerddor geisio tagu ei wraig a gellir damcanu mai dyma a arweiniodd at y brathiadau. Nid syndod yw cyfaddefiad William Williams ei fod yn feddw ar y pryd.

Gwaliwr a ffosiwr oedd Eos Graianog wrth ei alwedigaeth a gellir casglu mai digon llwm oedd ei amgylchiadau fel sawl un o dyddynwyr bychain y Garn. Ni chanfûm ddyddiad ei farwolaeth hyd yma ac amheuaf yn fawr fod carreg yn dynodi ei fedd.

Serch trasiedi ei fywyd priodasol ar ddiwedd ei oes, cyffwrdd calon dyn a wna'r muriau enfawr o amgylch caeau bychain yr ucheldir, llawer ohonynt yn ffrwyth ei lafur, tystiolaeth o 'ymdrech enbyd dyn i ennill bywoliaeth o dir diffaith' yn ôl disgrifiad Dr Colin Gresham.

Erys hefyd *Blaenffrwyth Dwyfach* yn goffadwriaeth i ddawn hen werinwr a ymdrechodd yn erbyn anawsterau yr un mor anodd i feistroli elfennau cerddoriaeth.

# Mynydd-y-gof

## gan Dafydd Wyn Wiliam

CODAIS yn blygeiniol fore Mercher, 28 Awst 1991, mynd ar y trên chwech o'r gloch o Gaergybi i Crewe ac oddi yno mynd ar drên tua'r gogledd a chyrraedd Lancaster yn brydlon am 9.45 o'r gloch. Yno, yn disgwyl amdanaf, yr oedd wyres y sawl a ysgrifennodd y gyfrol *Mynydd-y-gof* (1905). Cymerodd fi yn ei modur i'w chartref ym mhentref prydferth Glasson Dock, siwrnai tua chwarter awr o Lancaster.

'Dyna,' chwedl y Morrisiaid am gymdeithas felys, 'lle bu dd'ri'r badell fawr am ben y badell fechan.' Wedi saith awr o holi a gwrando a bwyta fy ngwala hebryngwyd fi yn ôl i orsaf Lancaster a dychwelais y ffordd y deuthum i Fodedern.

Dysgais lawer o bethau wrth wrando ar Maida Bulman (g. 22 Medi 1910), gwraig fywiog a deallus, yn adrodd hanes ei mam a'i thaid ac eraill o ddisgynyddion teulu Mynydd-y-gof, Bodedern.

Yn ôl a glywodd Mrs Bulman nid argraffwyd mwy na hanner cant o gopïau o gyfrol ei thaid, sef cant yn llai na'r nifer a awgrymwyd gennyf i yn rhifyn 38 o'r cylchgrawn hwn.

Er bod copi o'r gyfrol yn ei meddiant hi, copi ei mam, ni ŵyr Mrs Bulman am neb arall sy'n berchen copi. Anodd credu bod llawer o'r hanner can copi a argraffwyd wedi goroesi.

* * * *

O'I BRIODAS ag Elen (1840-1900) ferch Ebenezer Roberts, Crug, ym mhlwyf Llanfair-is-gaer, yr oedd gan Robert Roberts, awdur *Mynydd-y-gof*, amryw o blant. Cyflwynodd y gyfrol i'w ddau blentyn ieuangaf, sef Maida (Mary Adelaide 1873-1949) a Trixie (Beatrice Ann). Merch i Maida yw Mrs Bulman.



*Awdur Mynydd-y-gof tua 1915 gyda'i ferch a'i wyres*

Ni phrofodd Robert Roberts yr un llwyddiant mewn masnach â'i frodyr ym Manceinion, a phan ddirywiodd y fasnach mewn sioliau penderfynodd ymddeol, ac ymsefydlodd ef a'i deulu yn Crug, tŷ helaeth uwchlaw'r briffordd rhwng Caernarfon a'r Felinheli.

Pan fu farw ei wraig, 23 Rhagfyr 1900, gorfu i Robert Roberts a'r plant symud o'r Crug. Ymsefydlodd y teulu ym Mron Ceris, Caernarfon. Yno yr ysgrifennodd Robert Roberts ei atgofion a'u cyhoeddi.

Er mwyn ceisio lleddfu ei hiraeth am ei wraig byddai Robert Roberts yn treulio'r gaeafau mewn gwledydd tramor ac yn mynd â rhai o'i blant gydag o. Pum mlynedd cyn iddo farw, 25 Ionawr 1916, fe aned Maida Bulman, sef y wraig y bûm i'n ymweld â hi, ac y mae ganddi gof eithaf da am ei thaid.

Tua blwyddyn cyn iddo farw fe dynnwyd llun o Robert Roberts gyda'i ferch Maida a'i wyres Maida (Bulman) — gweler y llun gyda'r ysgrif hon. Claddwyd ef yn yr un beddrod â'i wraig ym mynwent Eglwys blwyf Llanfair-is-gaer.

Ar y garreg fedd naddwyd y ffeithiau 'Sacred to the Memory of Robert Roberts, Born February 8th 1822, Died January 25th 1916'.

Holais Mrs Bulman a oedd unrhyw arwyddocâd i'r enw 'Lax' a roddodd ei thaid wrth ei lyfr *Mynydd-y-gof*. Awgryma hi mai cyfaddefiad o ryddfrydigrwydd crefyddol yw'r enw. Nid oedd yn arddel Methodistiaeth gaeth ei rieni.

Carwn ddiolch i Mrs Bulman am ei chymorth a'i charedigrwydd ac am ganiatâd i gyhoeddi'r llun. Gweler *Y Casglwr*, rhifynnau 38, 40 a 41 am ragor o nodion am *Mynydd-y-gof*.